

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 14eg Mai  
2018 yn Ystafell Nantlle, Plas y Brenin, Capel Curig**

**Presennol:** Siân Shakespear (SS) - Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Dwynwen (DP), Iolo (ap Gwynn)(IAG), Elen(EH), Dilys (DAP), Steve (SW)

**Ymddiheuriadau:** Dewi, Eirwen, Myfyr, Raymond, Richard

<b>1. <u>COFNODION</u></b>	<p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Ionawr, 2018 fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi</p> <p><u>Y Wefan a Chyfyngau Cymdeithasol</u></p> <p>Nodwyd fod angen gwyro cynnwys y wefan unwaith y flwyddyn i sicrhau fod yr holl wybodaeth ynddi yn gyfredol</p> <p>Gofynnwyd i EH holi Mari i weld beth oedd y sefyllfa hefo agor cyfrif Instagram ar gyfer y Clwb.</p> <p><u>Canllawiau i Arweinyddion Teithiau</u></p> <p>Nodwyd fod angen atgoffa arweinwyr teithiau i gymryd rhestr o enwau ar gychwn y diwrnod,</p>
<b>2. <u>ADRODDIAD Y TRYSORYDD</u></b>	<p><u>Rheolau Diogelu Data</u></p> <p>Adroddodd DAP fod angen rhai newidiadau i'r ffordd yr oedd y Clwb yn gweithredu yn sgil y newidiadau i'r rheolau diogelu data a oedd yn dod i rym diwedd y mis. Er mwyn cydymffurfio a'r polisi byddai'n rhaid i'r Clwb baratoi a mabwysiadau polisi diogelu data yn nodi sut y byddai'n delio hefo'r wybodaeth a gedwir am ei aelodau yn unol â gofynion y rheolau.</p> <p>Cafwyd amlinelliad o ofynion y rheolau a'u hobblygiadau i'r Clwb</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) gofyn I DAP baratoi polisi diogelu data i'r Clwb a fydd yn cydymffurfio a gofynion y rheolau newydd (ii) ar ôl ei baratoi dylai ddosbarthu'r polisi ymysg aelodau'r pwyllgor. Os oedd pawb yn gytûn a'i gynnwys yna gellid ei fabwysiadu neu fel arall gellid ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor (iii) unwaith bydd y polisi wedi ei fabwysiadu dylid ei gylchredeg ymysg aelodaeth y clwb. (iv) i'r dyfodol gofyn i EO baratoi ail fersiwn o raglen weithgareddau'r Clwb a fydd heb fanylion cyswllt yr arweinyddion (rhif ffôn etc) ar gyfer ei chadw yn archif y Clwb a dylid cadw'r rhaglenni sydd yno eisoes fel ag y maent am y tro (v) dylai swyddogion y Clwb ond gadw rhestr aelodaeth gyfredol y Clwb a'r 2 flynedd flaenorol ar gyfer pwrpasau gweinyddol, dylai rhai hynach gael eu dinistrio.</p> <p><u>Tal Aelodaeth &amp; Statws Elusennol</u></p> <p>Adroddodd DAP gan fod £14.25 o £15 tâl aelodaeth y Clwb bellach yn cael ei drosglwyddo i'r CMP y penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf i ofyn iddi edrych i mewn i'r angen i'r Clwb godi ei dâl aelodaeth a hefyd os byddai cofrestru'r Clwb fel elusen yn helpu ei sefyllfa ariannol drwy allu gwneud hawliad adennill treth.</p> <p>Nododd ar ôl tafod hefo swyddogion o nifer o gymdeithasau eraill, rhagwelai na fyddai cofrestru fel elusen yn broblemus. Byddai angen pennu ymddiriedolwyr a fyddai'n gyfrifol am sicrhau fod y Clwb fel elusen yn cwrdd â'i amcanion ac yn gweithredu yn briodol</p> <p>Bod gan y Clwb swm o oddeutu £5k yn ei goffrau ar hyn o bryd. Fodd bynnag doedd y 25c a oedd yn weddill o'r tâl aelodaeth ddim yn ddigonol i gwrdd â'i gostau gweinyddol ac felly byddai'r ffigwr yma yn gostwng. Roedd yn debygol hefyd y byddai 'r Clwb yn wynebu gwariant ar ei ddathliadau 40 yn 2019 a fyddai' hefyd yn lleihau'r swm o arian yn y banc</p>

Cafwyd trafodaeth helaeth ar hyn a'r prif gasgliadau oedd:

Bod mantais i gofrestru'r Clwb fel elusen ond byddai angen sefydlu os oedd modd cael yswiriant a fyddai'n diogelu'r aelodau a fyddai'n gweithredu fel ymddiriedolwyr

Byddai'n rhaid i'r Clwb wynebu'r ffaith y byddai'n rhaid iddo god ei dâl aelodaeth a byddai'n fwy synhwyrrol i wneud codiad eithaf sylweddol i ddyweder £20 a fyddai gobeithio yn sefydlog wedyn am ychydig o flynyddoedd yn hytrach na chodiad is a fyddai angen ei adolygu yn fuan wedyn.

Byddai codi'r tâl yn golygu cryn waith gweinyddol i'r swyddogion ac felly bod yna werth symud drosodd o drefn o ddefnyddio Gorchmynion Sefydlog ar gyfer derbyn tâl i Ddebyd Uniongyrchol fel rhan o'r broses. Byddai'n hwylusach wedyn i weithredu'r broses derbyn tâl i'r dyfodol.

Cytunwyd

(i) Ar gyfer y cyfarfod nesaf gofyn i DAP nodi ar bapur sefyllfa ariannol y Clwb a'r rhagolygon i'r dyfodol a'r prif anghenion ynghlwm a chofrestru fel elusen ac yn arbennig os gellid cael yswiriant i ddiogelu ymddiriedolwyr a'r gost debygol o hynny

(ii) Yn amodol ar y drafodaeth yn y cyfarfod hwnnw ar y materion a nodir yn (i) uchod, y tebygolrwydd yw y bydd y pwyllgor yn cyflwyno pecyn i'r cyfarfod blynyddol ym mis Tachwedd yn argymhell y canlynol:

1. Bod y Clwb yn cofrestru fel elusen
2. Cynyddu tâl aelodaeth i £20 y flwyddyn
3. Newid y drefn dalu i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol

### **3. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2018 - DARLITH GOFFA LLEW GWENT**

Adroddodd GW fod Marged Tudur wedi cytuno i roi Darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod eleni yng Nghaerdydd ac mai "... bryn a mawndir a phabwyr a chraig a llyn." fyddai pennawd y ddarlith. Byddai'n cael ei chynnal ar ddydd Iau, 9 Awst ym Mhabell Cymdeithasau 2 (yn Adeilad y Senedd).

Cytunwyd

- (i). Gofyn i GW drafod hefo Maldwyn dylunio deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer y ddarlith
- (ii). Gellid defnyddio Gwasg Ffrancon ar gyfer y gwaith argraffu a dylid anelu i ddarparu oddeutu 20 poster a 100 o daflenni
- (iii) Byddai'r Clwb yn talu am unrhyw docyn mynediad i Marged ar gyfer y diwrnod pe byddai angen gwneud hynny
- iv) Gofyn i EO drafod hefo Dewi'r posibilrwydd o drefnu taith i'r Clwb yn ystod wythnos yr Eisteddfod gyda Dwynwen ar gael wrth gefn i drefnu taith os angen

### **4. DATHLIADAU PEN-BLWYDD Y CLWB YN 40 YN 2019**

Ystyriwyd gwahanol opsiynau ar gyfer dathlu pen-blwydd y Clwb yn 40 yn 2019 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

Cytunwyd

- i) Dylid anelu i gael rhaglen o weithgareddau wedi ei threfnu i ddathlu'r achlysur a allasai gynnwys ymysg eraill, y canlynol
- ii) Gellid cael sesiwn hefo panel yn holi rhai o sylfaenwyr y Clwb a gofyn a byddai Gerallt Pennant fod yn hwylusydd ar ei gyfer.
- iii) Ceisio perswadio'r BBC i recordio'r sgwrs yma fel y byddai gofnod parhaol ohoni wedyn
- iv) gan ei fod yn achlysur arbennig byddai o werth i'r Clwb gael stondin yn yr Eisteddfod ac yn sgil y costau sylweddol sydd ynghlwm a hyn, gofyn i IAG holi os fyddai modd i'r Clwb gael presenoldeb yn stondin y Parc Cenedlaethol.
- v) Ystyried parti dathlu addas i'r ifainc a'r hyn ar ein stondin;
- vi) taith gerdded symbolaidd o Gaernarfon i Lanrwst gan gynnwys elfen o'r aelodaeth hynaf ac ifengaf yn ei harwain neu rywbeth tebyg;
- vii) Ystyried comisiynu englyn i ddathlu'r achlysur
- viii) Siarad hefo'r Urdd i weld os yn bosib trefnu rhywbeth ar y cyd fel rhan o'r broses o edrych ymlaen yn o gystal ag edrych yn ôl a allai gynnwys sesiynau blasu gweithgareddau awyr agored/dringo ar y cyd a'r Urdd neu'r Bartneriaeth Awyr Agored ;
- ix) Ar gyfer y ddarlith, gofyn a fyddai Lowri Morgan o'r rhaglen teledu "Ar y Dibyn" yn fodlon ei rhoi. SW i

	<p>gysylltu hefo Hannah Hughes i ofyn iddi</p> <p>x) Sefydlu panel (GW/EO/DP) i symud ymlaen a gwneud cynnydd hefo rhai o'r syniadau uchod</p>	
5.	<p><b><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2018</u></b></p> <p>Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer cynnal Cyfarfod Blynyddol y Clwb</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i) Anelu ei gynnal yn ardal y Bala os yn bosib a dylid holi Gwesty'r Llew Gwyn yn y lle cyntaf</p> <p>ii) Ei gynnal ar 17 Tachwedd a nodi y bydd yn dilyn yr un trefniant ag y llynedd</p> <p>iii) Gofyn a fyddai Rhys Gwyn yn fodlon rhoi'r sgwrs. SS i holi Elinor</p> <p>iv) Byddai'n rhaid cael darpar Is-gadeirydd newydd ar gyfer y cyfarfod</p>	
6.	<p><b><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB/DIWRNOD BLASU/DENU POBL IFANC</u></b></p> <p><u>Rhaglen Weithgareddau</u></p> <p>Cytunwyd</p> <p>i) Dylid cynnwys ambell i daith ar y Sul ar y rhaglen</p> <p>ii) Edrych ar y posibilrwydd o gynnal penwythnos yn Ne Cymru yn y rhaglen nesaf</p> <p><u>Diwrnod Blasu</u></p> <p>Cafwyd adborth ar y teithiau'r diwrnod blasu a gynhaliwyd ar ddydd Llun 7 Mai. Adroddwyd bod yna nifer da wedi troi allan i'r daith i fyny Moel Siabod yn y Gogledd ond dim cystal yn y Canolbarth a De</p> <p><u>Denu Pobl Ifanc</u></p> <p>Adroddwyd fod Hannah Hughes a oedd yn gweithio i Wasanaeth Hamdden Cyngor Gwynedd yn ceisio hyrwyddo mynydda ymysg yr ifanc. Roedd yn awyddus i drefnu taith mynydda i bobl ifanc ac wedi gofyn a fyddai'n bosib iddi drefnu rhywbeth ar y cyd hefo'r Clwb. Roedd wedi nodi y byddai'n llwyr gyfrifol am y bobl ifanc ar y daith</p> <p>Cytunwyd gan fod y Clwb yn awyddus i ddenu pobl ifanc i fynydda cytuno a chais Hannah er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc gael blas ar fynydda</p>	
7.	<p><b><u>GWISGO'R COPAON MEWN SIWMPERI NADOLIG</u></b></p> <p>Adroddwyd y cafwyd cais gan Reolwyr y Cyfryngau a Chyfathrebu - Achub y Plant Cymru ar ran apêl "Gwisgo'r copaon mewn siwmperi Nadolig er budd elusen" i'r Clwb eu cynorthwyo gyda'r ymgyrch i godi arian. Gofynnwyd a fyddai'r Clwb yn fodlon i gytuno i griw o aelodau' gerdded i gopa'r Wyddfa wedi eu gwisgo mewn siwmperi Nadolig gan gario siwmpwr gyda nhw a fydd wedi ei gweu yn arbennig er mwyn gwisgo carreg y copa yn Nadoligaidd.</p> <p>Cytunwyd tra bod y pwyllgor yn gefnogol i'r ymgyrch i godi arian ar gyfer achos da, yn sgil yr holl bwysau oedd ar y Wyddfa, na allent weld ei ffordd i gytuno fod yn rhan ymgyrch a oedd yn defnyddio'r mynydd i ddiben arall. Teimlwyd na fyddai ddim yn cyd-fynd a'i amcanion sylfaenol o hyrwyddo mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg</p>	
8.	<p><b><u>CANLLAWIAU TEITHIAU</u></b></p> <p>Cyflwynodd EO ganllawiau drafft yr oedd wedi ei baratoi ar gyfer aelodau a oedd yn trefnu teithiau preswyl i aelodau'r Clwb.</p> <p>Cytunwyd y dylid pawb daro golwg dros y canllawiau ac y gellid eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis medi/</p>	
9.	<p><b><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></b></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 8 Hydref, 2018 yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>	

